



Diogelu Gwent Gwent Safeguarding

Protocol Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion Gwent



Bwrdd Diogelu Gwent	Dyddiad:	Statws: Drafft V3 Medi 2020
Awdur: Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion	Fersiwn Flaenorol: Amh.	Dyddiad Adolygu: Ebrill 2024

CYNNWYS	Rhif tudalen
Diben a Chwmpas	3
Swyddogion Awdurdodedig	4
Cyfrifoldebau'r Swyddog Awdurdodedig	5
Cychwyn Cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion	6
Paratoi Cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion	7
Cynllunio a Pharatoi	7
Hysbysiad o Gais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion	8
Y Weithdrefn Ar Ôl Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion	8
Wedi gweithredu Gweithdrefnau Ar Ôl Gorchymyn	9
Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion	9
Hyfforddiant i Swyddogion Awdurdodedig	9
Y broses Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ar gipolwg	11

Atodiad:

1) Offeryn gwneud penderfyniadau Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion	12
2) Offeryn Rhesymeg yr Heddlu ar Orchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion	13
3) Ffurflen Gais Genedlaethol am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion	14
4) Ffurflen Penodi Swyddog Awdurdodedig yr Awdurdod Lleol	17
5) Taflen Wybodaeth am Orchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion	20
6) Gwybodaeth Ategol i Ymarferwyr: Rheolaeth Drwy Orfodaeth	23
7) Taflen wybodaeth i deuluoedd	25
8) Copio APSO	27

DIBEN A CHWMPAS

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014), Rhan 7 Adran 127 yn cyflwyno'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion newydd. Mae'r gorchymyn hwn yn darparu fframwaith deddfwriaethol i ganiatáu i Swyddog Awdurdodedig (gweler y gofynion am Swyddogion Awdurdodedig isod) o'r Awdurdod Lleol wneud cais i'r llys ynadon i wneud y canlynol;

- Galluogi'r swyddog awdurdodedig, ac unrhyw berson arall sydd gyda'r swyddog, i siarad yn breifat â pherson yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg;
- Galluogi'r swyddog awdurdodedig i ganfod a yw'r person hwnnw'n gwneud penderfyniadau yn rhydd; a
- Galluogi'r swyddog awdurdodedig i asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad fel sy'n ofynnol o dan adran 126(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar ba gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.

Gellir gweld canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cyfrog-4-gorchymyn-amddiffyn-a-chynorthwyo-oedolion.pdf>

Mae'r Gorchymynion hyn wedi'u bwriadu i alluogi oedolion agored i niwed i fynegi eu safbwyntiau'n annibynnol i Swyddog Awdurdodedig lle bo rheswm dros gredu eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Fodd bynnag, efallai na fydd Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn briodol:

- os gallai caniatáu Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion adael yr unigolyn mewn mwy o berygl;
- os nad yw dulliau eraill llai ymwithiol wedi cael eu hystyried; ac
- os gallai defnyddio Gorchymyn Amddiffyn rhag Trais Domestig (lle gellir symud y troseddwr o'r fangre) neu gamau eraill gynnig amddiffyniad gwell i'r dioddefwr. Gweler y ddogfen Rhesymeg yr Heddlu (Atodiad 2) i weld amrywiaeth o gamau eraill y gellir eu cymryd.

Rhagwelir mai anaml y bydd cais yn cael ei wneud am Orchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Bydd ceisiadau'n cael eu gwneud dim ond pan fydd opsiynau eraill llai ymwithiol wedi methu neu'n hynod debygol o fethu.

Nid oes rhaid i Swyddogion Awdurdodedig brofi'r angen am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion y tu hwnt i bob amheuaeth resymol. Yn rhannol, mae angen am y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion oherwydd nad oes digon o wybodaeth am yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg.

Ni ellir caniatáu gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion ond os yw'r llys yn fodlon:

- a) bod gan y Swyddog Awdurdodedig achos rhesymol i amau bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg;

- b) ei bod yn angenrheidiol i'r Swyddog Awdurdodedig gael mynediad at y person er mwyn asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad fel sy'n ofynnol gan adran 126 (2) am ba gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd;
- c) ei bod yn angenrheidiol cyflwyno gorchymyn er mwyn bodloni'r dibenion a nodir yn adran 127(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; ac
- d) na fydd arfer y pŵer mynediad a gyflwynir gan y gorchymyn yn achosi i'r person fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Mae'n bwysig nodi na ellir defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn un o fangreoedd yr ystâd ddiogeled, mewn carchardai na llety cadw ieuenctid (gweler adran 185(6) o'r Ddeddf).

Mae canllawiau statudol mewn perthynas â Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion wedi cael eu cyhoeddi o dan y pwerau yn adrannau 131 a 139 o Ddeddf 2014, gweler Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol I - Cyflwyniad a Throsolwg. Mae copi ar gael yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-i-cyflwyniad-a-throsolwg.pdf>

Dylid darllen y protocol hwn ar y cyd â Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4. Mae copi ar gael yma:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cyfrol-4-gorchymyn-amddiffyn-a-chynorthwyo-oedolion.pdf>

Mae'r protocol hwn yn ymdrin yn benodol â'r agweddau ymarferol ar gais am ymyriad Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg sy'n byw yng Ngwent ac nid yw'n disodli'r canllawiau uchod.

Mae'r defnydd o Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn amodol ar yr egwyddor gyffredinol o gymesuredd. Mae hyn yn berthnasol i nifer yr ymweliadau a nifer yr unigolion sy'n dod gyda'r Swyddog Awdurdodedig.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru'n cynnwys gwybodaeth am Orchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, yn unol â'r pwerau a ddyroddir yn adrannau 131 a 139 o Ddeddf 2014.

SWYDDOGION AWDURDODEDIG

Gall ceisiadau am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion gael eu gwneud gan Swyddog Awdurdodedig o awdurdod lleol lle bo awdurdodiad wedi cael ei roi gan awdurdod lleol i gyflawni swyddogaethau o dan yr adran hon.

Mae'r rheoliadau yn darparu i swyddog i'r awdurdod lleol lle mae'r oedolyn sy'n wynebu risg yn preswyllo weithredu fel swyddog awdurdodedig. Pan nad yw hyn yn ymarferol, dylai'r swyddog awdurdodedig fod yn swyddog i awdurdod lleol yn ardal y Bwrdd Diogelu ac os nad yw hyn yn ymarferol, rhaid i swyddog awdurdodedig fod yn swyddog i awdurdod lleol yng Nghymru.

Bydd angen i awdurdodau lleol fod yn eglur ynghylch pwy sydd â chyfrifoldeb i weithredu ar ran yr awdurdod a gallu darparu tystiolaeth o awdurdodiad – gweler y *Ffurflen Penodi Swyddogion Awdurdodedig* yn Atodiad 3.

Mae'r Rheoliadau'n gosod cyfyngiadau ar bwy gaiff ei awdurdodi o dan yr adran hon, er enghraifft, trwy wneud cymwysterau neu brofiad penodol yn ofynnol. Mae angen set gymhleth o sgiliau ar Swyddog Awdurdodedig. Mae'n rhaid bod Swyddogion Awdurdodedig wedi cyflawni rhaglen hyfforddi arbenigol ac mae'n ofynnol iddynt gadw eu sgiliau'n gyfredol. Mae'n hanfodol bod gan y swyddog awdurdodedig rywfaint o annibyniaeth ar ei gyflogwr a'i fod yn gallu cyflawni'r swyddogaethau yn annibynnol ar reolaeth yr achos penodol o ddydd i ddydd.

Ceir rhagor o fanylion ynghylch y sgiliau, priodoleddau, hyfforddiant ac asesiad ar gyfer swyddog awdurdodedig yn y ddogfen Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4 – dilynwch y ddolen ar dudalen 2.

CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG AWDURDODEDIG

Swyddog Awdurdodedig yw'r person a gaiff wneud cais i ynad heddwch am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Dylai'r Swyddog Awdurdodedig baratoi'r ffurflen gais (Atodiad 2) gan gynnwys y sail ar gyfer y cais a'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys yn y gorchymyn fel y nodir yn adran 127(5) a (6) o'r Ddeddf. Mae'r swyddogaeth yn cynnwys trafod â gwasanaeth cyfreithiol yr awdurdod lleol i wneud y cais i'r llys a phresenoldeb posibl i roi tystiolaeth am yr angen mewn achosion penodol.

Os caiff Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ei gyflwyno i'r llys, mae'n rhaid iddo:

- nodi'r fangre y mae'n berthnasol iddi;
- darparu i gwnstabl fynd gyda'r swyddog awdurdodedig; a
- nodi'r cyfnod y bydd y gorchymyn mewn grym.

Gall y llys hefyd atodi amodau a allai, er enghraifft:

- nodi cyfyngiadau ar yr amser y gellir arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn;
- darparu i berson penodedig arall fynd gyda'r swyddog awdurdodedig; ac
- ei gwneud yn ofynnol i rybudd am y gorchymyn gael ei roi i feddiannydd y fangre ac i'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg.

Pan fo gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion mewn grym, mae gan y Swyddog Awdurdodedig, cwnstabl heddlu (os bernir bod ei angen) ac unrhyw berson arall a nodir yn y gorchymyn y pŵer i fynd i mewn i'r fangre lle mae'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn byw, at ddibenion y gorchymyn. Caiff y cwnstabl ddefnyddio grym rhesymol (er enghraifft, i gael mynediad i'r fangre lle mae'r oedolyn sy'n wynebu risg yn byw) os yw grym o'r fath yn angenrheidiol er mwyn galluogi cyflawni dibenion y gorchymyn.

CYCHWYN CAIS AM ORCHYMYN AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION

Disgwylir y bydd ymholiadau ynghylch yr angen am gais am orchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion fel arfer yn cael eu cynhyrchu trwy'r broses diogelu. Os oes gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn yn cael ei nodi yn ystod y broses diogelu, bydd y Cydgysylltydd Arweiniol (sydd â chyfrifoldeb am drefnu a chadeirio cyfarfodydd/trafodaethau strategaeth) dros yr achos yn cysylltu â'r Swyddog Awdurdodedig perthnasol. Os nad yw ar gael, bydd y Cydgysylltydd Arweiniol yn cyfeirio at yr uwch reolwr â chyfrifoldeb am ddiogelu.

Dylid rhoi ystyriaeth i hysbysu'r timau diogelu mewn asiantaethau allweddol (e.e. Iechyd, asiantaethau gofal cymdeithasol, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) ei bod yn bosibl y bydd gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion yn cael ei gychwyn. Ym mhob achos dylid cynnwys Tîm Diogelu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd. Nod hyn yw sicrhau cynrychiolaeth briodol mewn cyfarfodydd strategaeth dilynol. Mae'n hanfodol i bobl ar y lefel briodol o wneud penderfyniadau gymryd rhan mewn trafodaethau/ cyfarfodydd strategaeth.

Mae'n hanfodol i'r heddlu gael eu cynnwys trwy gydol y broses, gan y bydd hynny'n angenrheidiol yn aml i gynorthwyo â gweithredu'r gorchymyn cynorthwyo. Dylai'r heddlu gael gwahoddiad bob amser i fod yn bresennol. Os yw trafodaeth/ cyfarfod strategaeth wedi cael ei gynnal o'r blaen, bydd angen ei ailgynnull er mwyn hwyluso presenoldeb y Swyddog Awdurdodedig, cynrychiolydd cyfreithiol a'r heddlu.

Yn y lle cyntaf bydd y Swyddog Awdurdodedig a chynrychiolydd cyfreithiol o adran gyfreithiol yr awdurdod lleol yn bresennol yn y cyfarfod strategaeth i gasglu'r holl wybodaeth berthnasol er mwyn asesu a oes angen gwneud cais.

Yn y cyfarfod strategaeth, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn sicrhau bod yr holl gamau wedi cael eu cymryd er mwyn ymgysylltu â'r oedolyn sy'n wynebu risg. Mae hyn yn hanfodol wrth ddarparu tystiolaeth i'r llys pe bai cais yn cael ei wneud, gan y bydd angen i'r Swyddog Awdurdodedig ddangos yr ymchwiliwyd yn llawn i gamau ar wahân i orchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion. Gorchymyn pan fo popeth arall wedi methu yw gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion. Efallai y bydd y Swyddog Awdurdodedig yn gwneud rhagor o argymhellion cyn gwneud y cais a bydd yn hysbysu am y rhain trwy gydol y broses diogelu.

'Rhagwelir mai anaml y bydd cais yn cael ei wneud am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ...dylid gwneud ceisiadau dim ond pan fo popeth arall wedi methu, dylid eu hystyried dim ond pan fo dulliau eraill llai ymwithiol wedi methu neu'n hynod debygol o fethu. Dylid cofnodi methiant gwirioneddol neu debygol y dulliau eraill hyn' (Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4 – Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, t8.)

Y swyddog awdurdodedig, gyda chymorth tîm cyfreithiol yr awdurdod lleol, sydd â'r unig gyfrifoldeb am ddefnydd a gweithrediad y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

O ystyried goblygiadau Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion o ran hawliau dynol, mae'n rhaid ei ystyried dim ond pan fo popeth arall wedi methu; ac mae'n rhaid dod i gytundeb gyda'r heddlu, neu unrhyw asiantaeth arall ynghylch swyddogion cysylltiedig i'w nodi yn y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

Dylai'r swyddog awdurdodedig lunio 'mantolen' i gynorthwyo wrth ddadansoddi peryglon a goblygiadau gwneud cais a pheidio â gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Swyddog Awdurdodedig wrth ystyried/ cwblhau'r cais, a bydd hefyd o gymorth i'r ynad heddwch pan gaiff cais ei wneud.

Yn Atodiad 1 ceir Offeryn Gwneud Penderfyniad y gellir ei ddefnyddio wrth ystyried cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

PARATOI CAIS AM ORCHYMYN AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION

Os yw cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i gael ei wneud, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn gwneud y trefniadau priodol i sicrhau'r Gorchymyn a bydd yn gwneud hynny gan ddilyn y dull cam wrth gam a nodir yn y canllawiau statudol. Mae hyn yn cynnwys:

- Casglu tystiolaeth
- Cwblhau Atodiad 2: Ffurflen gais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion
- Gan ymgynghori â'r gwasanaethau cyfreithiol, cwblhau datganiadau tystion
- Ystyried pwy sydd angen bod yn bresennol yn y gwrandawriad gyda'r Swyddog Awdurdodedig i ddarparu gwybodaeth i'r Llys Ynadon
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i dalu ffi'r llys

Pan fo Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i gael ei ddefnyddio, bydd angen gwneud llawer o waith cynllunio a pharatoi gydag asiantaethau partner.

CYNLLUNIO A PHARATOI

Mae'n rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig sicrhau ei fod yn cynllunio'n effeithiol gyda'r Cydgysylltydd Arweiniol a'r Ymarferydd Arweiniol ar gyfer gweithredu'r gorchymyn, gan gynnwys cynllunio strategaeth ymadael a fydd yn nodi cymorth priodol i'r oedolyn sy'n wynebu risg. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau amddiffyniad, gofal a chymorth parhaus i'r unigolyn. Bydd angen cynllunio hyn yn effeithiol ym mhroses y cyfarfod strategaeth a bydd angen rhoi tystiolaeth ohono i'r llys yn y cais, gan gynnwys pwy ddylai fod yn bresennol e.e. eiriolwr, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru os oes problemau posibl o ran symudedd, ac ati.

Er mwyn i'r cais gael ei glywed yn y llys, ac wrth weithredu'r gorchymyn, bydd yn ofynnol i'r Swyddog Awdurdodedig fod â phrawf ei fod wedi'i achredu a'i benodi fel y Swyddog Awdurdodedig – gweler y Ffurflen Penodi yn Atodiad 2. Bydd yn rhaid iddo ddarparu tystiolaeth o'i awdurdod i weithredu, ynghyd â'r rhesymau pam y mae'n rhoi sylw i'r oedolyn sy'n wynebu risg.

Mae'n rhaid i'r cais gael ei drafod gan/ gydag asiantaethau partner er mwyn sicrhau y bydd yn arwain at weithredu strwythuredig. Nod hyn yw:

- bod y Swyddog Awdurdodedig yn meddu ar yr holl wybodaeth berthnasol
- bod cyfranogiad perthnasol asiantaethau partner yn cael ei nodi ar bob cam
- bod paratoad digonol ar gyfer unrhyw gyfranogiad ar ôl y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Mae Adran 127(6) (b) o'r Ddeddf yn nodi y gallai Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion gynnwys amod yn darparu i bobl benodedig eraill fod gyda'r Swyddog Awdurdodedig. Ceir rhestr o bobl a gaiff fod gyda'r Swyddog Awdurdodedig yn y ffurflen gais (yn Atodiad 2).

Wrth geisio cynnwys amod ynghylch pwy ddylai fod gyda'r Swyddog Awdurdodedig, gan gynnwys swyddog heddlu, mae'n rhaid darparu'r rhesymeg dros ei gynnwys yn y cais, fel y gellir ei nodi yn y gorchymyn.

Ceir gwybodaeth ychwanegol am swyddogaethau'r rhai sy'n mynd gyda'r Swyddog Awdurdodedig ac ystyriaeth o gyfranogiad eiriolwr yn y ddogfen Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4 – Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (gweler tudalen 3 i gael dolen).

Gellir hefyd cael gwybodaeth ychwanegol ynghylch y canlynol yng Nghyfrol 4 (gweler y ddolen ar dudalen 2)

- Safon y prawf
- Datgeliad
- Cymorth i dystion
- Ffioedd llys

HYSBYSIAD O GAIS AM ORCHYMYN AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION

Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i gyflwyno hysbysiadau ysgrifenedig i unigolion perthnasol yn y fangre, gan gynnwys yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg, y bydd cais yn cael ei wneud am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

Dylid cadw cofnod o unrhyw hysbysiadau ysgrifenedig neu lafar a gyflwynir a dylid cynnwys y manylion yn y cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, gan ei bod yn agored i ynad heddwch atodi amod i'r gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad ysgrifenedig gael ei roi.

Os yw'r Swyddog Awdurdodedig yn pryderu y gallai rhoi rhybudd i'r meddiannydd neu'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg wneud y person yn agored i niwed posibl, mae'n rhaid cynnwys y wybodaeth hon, a'r rhesymeg sy'n sail i farn o'r fath, yn y cais.

Dylid rhoi ystyriaeth i'r angen i hysbysu unigolion eraill y mae'r gorchymyn yn effeithio arnynt, er enghraifft, pan fo trefniant rhannu llety mewn lleoliad domestig, fel llety â chymorth.

Trowch at Atodiad 5 i weld taflen wybodaeth y gellir ei defnyddio i roi hysbysiad ysgrifenedig i bobl berthnasol yn y fangre.

Y WEITHDREFN AR ÔL GORCHYMYN AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION

Ar ôl i'r Swyddog Awdurdodedig gael y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, mae'n rhaid ailgynnull cyfarfod strategaeth amlasiantaethol i rannu gwybodaeth a chynllunio'n effeithiol i weithredu'r warant gyda'r holl unigolion sydd i fod yno. Lle bo'n bosibl dylai hyn fod cyn pen 24 awr. MAN LLEIAF dylai Tîm Diogelu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd fod yn bresennol.

Yn ystod y cyfarfod strategaeth hwn, mae'n rhaid i'r asiantaethau sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r agweddau a nodir isod, y gellir gweld manylion amdanynt yn y ddogfen Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4 (gweler y ddolen ar dudalen 2)

- Atodi Amod Hysbysu i Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion
- Amseru'r defnydd o'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion
- Mynd i mewn i'r fangre
- Yr asesiad

- Strategaeth ymadael
- Rhannu gwybodaeth
- Monitro a chofnodi

Mae'n rhaid i'r asesiad gynnwys cyfeiriad at y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Ar ôl gweithredu'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion dylid cynnal cyfarfod strategaeth arall i drafod yr angen am ymyriadau ychwanegol.

WEDI GWEITHREDU GWEITHDREFNAU AR ÔL GORCHYMYN AMDDIFFYN A CHYNORTHWYO OEDOLION

Ar ôl i'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion gael ei weithredu, dylai'r Swyddog Awdurdodedig drefnu sesiwn briffio i bawb a gymerodd ran.

Yn ogystal, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn darparu crynodeb i Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent. Dylai hefyd drefnu sesiwn briffio i Swyddogion Awdurdodedig eraill yn rhanbarth Gwent, ynghyd â Rheolwyr Diogelu Grŵp a Phenaethiaid Gwasanaethau Oedolion, er mwyn rhannu'r gwersi.

Bydd Uned Busnes Diogelu Gwent yn cadw cronfa ddata o'r holl geisiadau am Orchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion a wneir.

HYFFORDDIANT I SWYDDOGION AWDURDODEDIG

Ar adeg ysgrifennu'r protocol hwn mae Llywodraeth Cymru ynghynt (er rhai blynyddoedd yn ôl) wedi darparu hyfforddiant i ddau swyddog o bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn bwriadu cadw rhestr o Swyddogion Awdurdodedig a dylai unrhyw awdurdod lleol sydd eisiau manylion Swyddogion Awdurdodedig mewn ardaloedd eraill yng Nghymru anfon ymholiadau trwy e-bost at Dîm Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru: safeguardingandadvocacy@gov.wales

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gynnal hyfforddiant ychwanegol i Swyddogion Awdurdodedig.

Mae gan Swyddogion Awdurdodedig ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o graffu ar y broses gwneud penderfyniad cyn gwneud cais am / defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Yn aml bydd rôl y Swyddog Awdurdodedig yn cynnwys gweithio y tu ôl i'r llenni, gan gynnig cyngor i ymarferwyr sy'n ymwneud ag achos, gan gynghori lle bo'n briodol yn erbyn defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion a chynorthwyo â nodi lle gellir a lle dylid cymryd camau eraill.

Pan fo defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn cael ei ystyried, gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r Ffurflen Penodi atodedig (Atodiad 2) i awdurdodi Swyddog Awdurdodedig â chymwysterau addas naill ai o ardal ei awdurdod lleol ei hun, neu o un arall i weithredu ar ei ran.

Gall awdurdod lleol hefyd ddefnyddio'r ffurflen i benodi Swyddogion Awdurdodedig sydd newydd gymhwyso neu sy'n bodoli eisoes yn ei sefydliad ei hun, y tu allan i unrhyw broses Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion benodol (i fod yn barod).


Bydd angen i gopi wedi'i lofnodi o'r Ffurflen Penodi fod ar gael wrth wneud cais i'r llys am Orchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

Mae adnoddau hyfforddiant i Swyddogion Awdurdodedig ar gael trwy Hyb Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru.

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/gorchmynion-amddiffyn-a-chynorthwyo-oedolion>

Neu mae manylion gan Uned Busnes Diogelu Gwent. Mae'r adnoddau hyfforddiant hyn yn adlewyrchu deddfwriaeth a ddatblygwyd yn rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac wedi'u cynllunio i gynorthwyo Swyddogion Awdurdodedig i ddefnyddio Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn effeithiol ac yn briodol.

Y broses Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ar gipolwg



Atodiad 1 Offeryn Gwneud Penderfyniad Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion	Peidio â defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion
Risgiau:	Risgiau:
Buddion:	Buddion:
Casgliad a sylwadau:	

Atodiad 2

Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Rhesymeg Heddlu

Enw'r swyddog:

Rheng: (Rhaid dal rheng Ditectif Ringyll o leiaf)

Gorsaf:

Cyfeirnod Niche:

Crynodeb o'r amgylchiadau hysbys:

Rhowch grynodeb achos o'r amgylchiadau sy'n hysbys a'r risgiau sydd wedi'u nodi.

Deddfwriaeth sydd wedi'i hystyried:

Ystyriwch yr holl ddeddfwriaeth gan gynnwys Rheolaeth drwy Orfodaeth, Gorchmynion Amddiffyn Trais Domestig a'r defnydd o fechnïaeth yr heddlu / Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.

Rhesymeg pam y mae'r ddeddfwriaeth honno yn amhriodol neu'n aneffeithiol:

Bydd y rhesymeg hon yn cael ei chyflwyno i lys ac mae'n debyg o gael ei harchwilio / ystyried gan Ynad / Barnwr. Dylech geisio cyngor os ydych yn ansicr.

Llofnod:

Dyddiad:

Atodiad 3

Ffynhonnell: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4, Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, Atodiad B, t16

**Ffurflen gais am Orchymyn
Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion**

Cais trwy gŵyn am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a.127

Llys Ynadon (Cod):

Dyddiad:
.....

Testun y Gorchymyn:
.....

Cyfeiriad:
.....
.....

Awdurdod Ymgeisio:
.....

A honnir:

- a) bod.....yn dioddef neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, bod ganddo anghenion gofal neu gymorth ac o ganlyniad i'r anghenion hynny nad yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y perygl o hynny; a
- b) bod Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn angenrheidiol i'r swyddog awdurdodedig gael mynediad at y person a enwir uchod, er mwyn asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd; ac
- c) mae gwneud gorchymyn yn angenrheidiol i gyflawni'r dibenion a nodir yn adran 127(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; ac
- d) na fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn peri i'r oedolyn a enwir uchod fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Disgrifiad cryno o'r sail ar gyfer y cais:

- (a).....
- (b).....
- (c).....
- (d).....

Credaf ei bod yn briodol i'r person(au) canlynol fod gyda mi wrth arfer y gorchymyn (yn unol ag a.127(6)(b) o'r Ddeddf):

- (a).....
- (b).....
- (c).....
- (d).....

A ydych chi'n dymuno i'r cais hwn gael ei glywed:

- i) heb hysbysu'r diffynnydd; neu
- ii) ar ôl hysbysu'r diffynnydd.

Os ydych yn dymuno i'r cais gael ei glywed heb roi hysbysiad, nodwch eich rhesymau:

.....
.....
.....

A ydych chi'n dymuno i orchymyn gael ei ganiatáu gyda neu heb ofyniad i hysbysu meddiannydd y fangre a'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg? Nodwch eich rhesymau:

.....
.....
.....

Mae'n rhaid i'r gorchymyn nodi'r cyfnod y bydd mewn grym. A oes unrhyw faterion yr ydych yn dymuno eu codi sy'n berthnasol i'r cwestiwn hwn?

.....
.....
.....

Enw'r Awdurdod Ymgeisio

.....

Cyfeiriad yr Awdurdod Ymgeisio

.....
.....
Sy'n datgan bod y manylion uchod yn ddisgrifiad gwir a chywir o'r sail y gwneir y gŵyn hon arni:

.....
.....
.....
Cymerwyd ger fy mron i
Yr Ynad Heddwch
[Trwy orchymyn cleric y llys]

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol y credwch ei bod yn berthnasol i'r cais hwn:

.....
.....
.....
Enghreifftiau o'r math o berson a allai fod gyda swyddog awdurdodedig:

- y gweithiwr allweddol (gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal iechyd);
- gweithiwr gofal cartref;
- eiriolwr (statudol neu anstatudol);
- aelod o'r teulu neu ffrind agos;
- asesydd budd pennaf;
- ymarferydd cyffredinol; neu
- gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Atodiad 4

Penodi Swyddogion Awdurdodedig

Dylai fod gan yr holl awdurdodau lleol yng Ngwent eu cofrestr eu hunain o Swyddogion Awdurdodedig sy'n cynnwys manylion yr hyfforddiant mae'r swyddogion wedi ei gyflawni. Os nad oes gan awdurdod lleol Swyddog Awdurdodedig cymwysedig, mae rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn darparu y gellir penodi Swyddog Awdurdodedig o ardal y bwrdd diogelu, neu yn niffyg hynny o awdurdod lleol yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth gweler Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1465) a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/160909safeguarden.pdf>

Ffurflen Penodi Swyddog Awdurdodedig (Gorchmyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion)

ENW'R AWDURDOD:

ENW'R CYFLOGAI:

CYFEIRIAD Y GWEITHLE:

Yr awdurdod lleol i ddewis a, b neu c fel bo'n briodol:

a) Penodi Swyddog Awdurdodedig (ei staff ei hun)

Rwy'n cadarnhau bod yn bodloni gofynion Rheoliad 3 (1) o Reoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 yn gymaint ag:

- Y mae ganddo/ganddi brofiad perthnasol
- Y mae wedi cwblhau hyfforddiant priodol
- Y mae'n swyddog i'r awdurdod lleol hwn

Cadarnhad o gwblhau Hyfforddiant i Swyddogion Awdurdodedig ar Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion:

Enw'r cwrs:

Darparwr y cwrs:

Y dyddiad y'i cwblhawyd:

Rwyf drwy hyn yn penodi'r person dywededig i gyflawni swyddogaeth Swyddog Awdurdodedig o dan Reoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1465)

Bydd yr Awdurdodiad mewn grym o am gyfnod o

Bydd y Swyddog Awdurdodedig yn rhoi sylw i ac yn cydymffurfio â'r gofynion fel y'u nodir yn y rheoliadau uchod ac yn hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion os bydd yn peidio â bodloni'r gofynion fel y'u nodir yn y rheoliadau.

Llofnodwyd:

Teitl:

Dyddiad:

Llofnodwyd (Swyddog Awdurdodedig penodedig):

Dyddiad:

NEU (gweler b, c)

b) Penodi Swyddog Awdurdodedig (o un arall o Awdurdodau Lleol Gwent)

Rwy'n cadarnhau bod yn bodloni gofynion Rheoliad 3 (2) o Reoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 yn gymaint ag:

- Y mae ganddo/ganddi brofiad perthnasol
- Y mae wedi cwblhau hyfforddiant priodol
- Y mae'n swyddog i awdurdod lleol yn ardal Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent

Cadarnhad o gwblhau Hyfforddiant i Swyddogion Awdurdodedig ar Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion:

Enw'r cwrs:
Darparwr y cwrs:
Y dyddiad y'i cwblhawyd:

Rwyf drwy hyn yn penodi'r person dywededig i gyflawni swyddogaeth Swyddog Awdurdodedig o dan Reoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1465)

Bydd yr Awdurdodiad mewn grym o am gyfnod o

Bydd y Swyddog Awdurdodedig yn rhoi sylw i ac yn cydymffurfio â'r gofynion fel y'u nodir yn y rheoliadau uchod ac yn hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion os bydd yn peidio â bodloni'r gofynion fel y'u nodir yn y rheoliadau.

Llofnodwyd:
Teitl:
Dyddiad:

Llofnodwyd (Swyddog Awdurdodedig penodedig):
Dyddiad:

NEU (gweler c)

c) Penodi Swyddog Awdurdodedig (o Awdurdod Lleol arall yng Nghymru)

Rwy'n cadarnhau nad yw'n ymarferol i swyddog sy'n bodloni Rheoliad 3 paragraff 1 neu 2 weithredu ac felly rwy'n penodisy'n swyddog i (rhowch enw'r awdurdod lleol)ac yn bodloni gofynion Rheoliad 3 (3) o Reoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015

Cadarnhad o gwblhau Hyfforddiant i Swyddogion Awdurdodedig ar Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion:

Enw'r cwrs:
Darparwr y cwrs:
Y dyddiad y'i cwblhawyd:

Bydd yr Awdurdodiad mewn grym o am gyfnod o

Bydd y Swyddog Awdurdodedig yn rhoi sylw i ac yn cydymffurfio â'r gofynion fel y'u nodir yn y rheoliadau uchod ac yn hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion os bydd yn peidio â bodloni'r gofynion fel y'u nodir yn y rheoliadau.

Llofnodwyd:

Teitl:

Dyddiad:

Llofnodwyd (Swyddog Awdurdodedig penodedig):

Dyddiad:



Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Taflen Wybodaeth

Crynodeb o'r pwerau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddefnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion a hawliau'r rhai sy'n gysylltiedig

Cyflwyniad

Mae Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion wedi eu cynllunio i alluogi oedolion agored i niwed fynegi eu safbwyntiau'n annibynnol i swyddog awdurdodedig pan geir rheswm i gredu eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Byddai defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion wedi cael ei ystyried fel rhan o broses diogelu yr awdurdod lleol.

Mae Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn caniatáu i Swyddog Awdurdodedig o'r awdurdod lleol arfer pŵer mynediad i gael mynediad at berson yr amheuir ei fod yn wynebu risg;

- Er mwyn iddo siarad yn breifat â'r person yr amheuir ei fod yn wynebu risg;
- Er mwyn galluogi'r Swyddog Awdurdodedig i ganfod a yw'r person hwnnw yn gwneud penderfyniadau o'i wirfodd; ac
- Er mwyn galluogi'r Swyddog Awdurdodedig i asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.

Bydd ceisiadau am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn cael eu gwneud dim ond pan fydd opsiynau eraill llai ymwithiol wedi methu neu'n hynod debygol o fethu.

Enw'ch Swyddog Awdurdodedig yw:

Ei gyfeiriad a'i rif ffôn yw:

Pwerau Statudol

Dim ond Llys Ynadon all ganiatáu defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Mae Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn caniatáu i Swyddog Awdurdodedig o'r Awdurdod Lleol wneud cais i'w Lys Ynadon lleol. Nid yw Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn cael eu caniatáu ond os yw'r llys yn fodlon;

- bod gan y Swyddog Awdurdodedig achos rhesymol i amau bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg,

- ei bod yn angenrheidiol i'r Swyddog Awdurdodedig gael mynediad at y person er mwyn asesu'n briodol pa un a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd,
- bod gwneud gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r dibenion a nodir yn adran 127(2) o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant; ac
- na fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn peri i'r oedolyn fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Ymweliadau gyda Gorchymynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Mae Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn ddilys am gyfnod penodol o amser ac at ddiben penodol.

Mae Adran 127(6) (b) o'r Ddeddf yn caniatáu i bobl benodedig eraill fod gyda'r Swyddog Awdurdodedig. Mae enghreifftiau o bobl a allai fod gyda Swyddog Awdurdodedig yn cynnwys:

- swyddog/ion heddlu;
- y gweithiwr allweddol (gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal iechyd);
- gweithiwr gofal cartref;
- eiriolwr (statudol neu anstatudol);
- aelod o'r teulu neu ffrind agos;
- asesydd budd pennaf;
- ymarferydd cyffredinol; neu
- weithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Ni ddefnyddir Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ond pan fo popeth arall wedi methu. Pan fo Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i gael ei ddefnyddio, rhoddir ystyriaeth bob amser i gyfyngu ar nifer yr ymweliadau a nifer y bobl sy'n mynd gyda'r Swyddog Awdurdodedig i'r nifer leiaf mae ei hangen i wneud yr asesiad ar gyfer y person yr amheuir ei fod yn wynebu risg.

Beth sy'n digwydd os canfyddir bod angen gofal a/neu gymorth ychwanegol ar y person yr amheuir ei fod yn wynebu risg?

Os canfyddir bod angen gofal a/neu gymorth ychwanegol ar y person yr amheuir ei fod yn wynebu risg, bydd yr awdurdod lleol yn cymryd camau i sicrhau y trefnir gofal a chymorth priodol. Ar ôl i ofal a chymorth ychwanegol gael ei drefnu, bydd y sefyllfa a'r anghenion parhaus o ran gofal a chymorth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Beth sy'n digwydd os nad yw'r person yr amheuir ei fod yn wynebu risg eisiau unrhyw ofal neu gymorth ychwanegol?

Efallai y bydd yr oedolyn sy'n wynebu risg yn gwrthod ymgysylltu neu rannu gwybodaeth â'r Swyddog Awdurdodedig ac yn nodi nad yw eisiau unrhyw ofal neu gymorth ychwanegol. Os mai dyna'r sefyllfa, bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried y canlynol;

- A oes gan yr oedolyn sy'n wynebu risg alluedd i wneud y penderfyniad perthnasol hyd yn oed os yw'n benderfyniad annoeth
- A yw'r person yn dioddef rheolaeth drwy orfodaeth neu unrhyw fath arall o gamdriniaeth neu esgeulustod
- A oes pryderon ynghylch diogelwch oedolion eraill sy'n wynebu risg,
- A oes pryderon ynghylch diogelwch plant a/neu y cyhoedd

Os nad oes unrhyw bryderon ynghylch yr uchod, mae'n bosibl na fydd unrhyw gamau eraill yn cael eu cymryd. Bydd y Swyddog Awdurdodedig yn gallu cynghori os mai dyma yw'r sefyllfa.

Fodd bynnag, os oes pryderon ynghylch unrhyw un o'r uchod, mae camau ychwanegol yn debyg o gael eu cymryd i ddiogelu unrhyw oedolyn neu blant y penderfynir eu bod yn wynebu risg fel rhan o broses diogelu yr awdurdod lleol; mae hyn mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol eraill.

Ble allaf i gael mwy o wybodaeth am Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion?

Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, bydd y Swyddog Awdurdodedig a enwir drosodd yn gallu cynorthwyo â hyn.

Â phwy allaf i gysylltu i drafod defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion?

Os ydych yn dymuno trafod defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, dylech gysylltu â'r Swyddog Awdurdodedig a enwir drosodd.

Os ydych yn dymuno cwyno am y defnydd o Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, dylech siarad â'r Swyddog Awdurdodedig a enwir drosodd yn y lle cyntaf, a fydd yn gallu'ch cynghori ar y camau priodol a phwy arall y gallai fod angen ichi gysylltu ag ef.

Atodiad 6

Gwybodaeth i Ymarferwyr: Rheolaeth drwy Orfodaeth

Gall unigolion ddioddef rheolaeth drwy orfodaeth o ddechrau perthynas a gallant ei dioddef am ddegawdau naill ai mewn perthynas glos neu dan ddwylo aelod o'r teulu. Mae angen i ymarferwyr aros yn 'broffesiynol chwilfrydig' ac yn effro i'r posibilrwydd bod rhywun o dan reolaeth drwy orfodaeth.

'Controlling behaviour is a range of acts designed to make a person subordinate and/ or dependant by isolating them from sources of support, exploiting their resources and capacities for personal gain, depriving them of the means needed for independence, resistance and escape and regulating their everyday behaviour'

Wydell et al 2020

Coercive behaviour is an act or a pattern of acts of assault, threats, humiliation and intimidation or other abuse that is used to harm, punish, or frighten their victim

Wydell et al 2020

Gall y defnydd o ymddygiadau rheolaeth drwy orfodaeth gan gyflawnwyr effeithio ar bob agwedd ar fywyd unigolyn. I'r rheiny sy'n dioddef camdriniaeth o'r math hwn, gall gael effaith sylweddol ar eu hymdeimlad o hunaniaeth a'u hyder yn eu gallu i wneud penderfyniadau (Wydell et al 2020). I'r unigolion hyn, gall ffactorau fel cyflyrau iechyd, anabledd, anghenion o ran gofal a lefelau cysylltiad cymdeithasol gael eu defnyddio gan bartner a/neu aelod o'r teulu sy'n eu cam-drin i gynyddu ei reolaeth a dibyniaeth y dioddefwr arno. Lle mae bygythiad trais, mae lefelau ofn a rheolaeth yn codi.

Mae'r term Saesneg '*gas lighting*' yn disgrifio'r tactegau seciolegol y bydd partner / aelod o'r teulu sy'n gamdriniol yn eu defnyddio i achosi i'r dioddefwr amau ei bwyll a'i alluedd meddyliol ei hun.

Pan fo ymarferwyr yn pryderu nad yw rhywun yn manteisio ar y gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal a chymorth eraill sydd ar gael iddo, ac mae'n bosibl bod rhywun yn defnyddio ymddygiadau rheolaeth drwy orfodaeth, dylai ymarferwyr geisio trafod gydag eraill cyn gynted ag y bo modd, gan gynnwys tîm diogelu yr awdurdod lleol. Gellir cael manylion cyswllt trwy www.gwentsafeguarding.org.uk.

Adnoddau defnyddiol

- Mae canllawiau statudol ar reolaeth drwy orfodaeth ar gael o ddilyn y ddolen hon: <https://www.gov.uk/government/publications/statutory-guidance-framework-controlling-or-coercive-behaviour-in-an-intimate-or-family-relationship>
- <https://llyw.cymru/rheolaeth-yw-hyn>
- <https://www.welshwomensaid.org.uk/information-and-support/what-is-coercive-control/>

- Fideo prosiect AVA – Sut i ofyn ac ymateb i ddatgeliadau am drais a chamdriniaeth ddomestig https://youtu.be/_uEwNg0pFAI
- Mae Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn llinell gymorth 24 awr i unrhyw un sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig, trais rhywiol neu fathau eraill o drais yn erbyn menywod.: Ffôn: 0808 80 10 800, Neges destun: 07860077333, E-bost info@livefearfreehelpline.wales

Cyfeiriadau: Wydell et al (2020), Transforming the Response to Domestic Abuse in Later Life: Practitioner Guidance, The Centre for Age, Gender and Social Justice, Prifysgol Aberystwyth.

Atodiad 7



Diogelu Gwent Gwent Safeguarding

**Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo
Oedolion Gwent**

Taflen wybodaeth i deuluoedd

**Mae modd dod o hyd i ganllawiau
Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorchymynion
Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion trwy**

www.gwentsafeguarding.org.uk/cy



<p>Beth yw Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion?</p> <p>Mae Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (y Gorchymyn) yn helpu i sicrhau y gall pobl a allai gael eu camdrin neu eu hesgeuluso gael llais neu reolaeth dros yr hyn sy'n digwydd iddyn nhw.</p> <p>Mae'r Gorchymyn yn galluogi 'swyddog awdurdodedig' yr awdurdod lleol i gael gorchymyn gan y llys ynadon a fydd yn caniatáu iddyn nhw fynd i mewn i adeilad penodol. Mae'r adeiladau yn cynnwys: a) adeiladau domestig; b) cartref gofal preswyl; c) cartref nyrsio; d) ysbyty; neu e) unrhyw adeilad arall, adeiledd, cartref symudol neu garafán lle mae person yn byw.</p> <p>Mae modd defnyddio'r Gorchymyn os mai dyma'r unig ffordd y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn credu y gallen nhw siarad yn breifat ag unigolyn a allai fod yn wynebu camdriniaeth. Bydd y Gorchymyn yn helpu i alluogi'r 'swyddog awdurdodedig' i benderfynu a yw'r unigolyn hwn mewn perygl ac a oes angen cymryd unrhyw gamau i'w helpu.</p>	<p>Bydd angen i'r swyddog awdurdodedig (ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n bresennol) bennu a yw'r person yn gwneud penderfyniadau yn annibynnol. Er enghraifft, "a yw'r penderfyniad mae'r person yn ei wneud yn annodweddiadol ac allan o gymeriad yn seiliedig ar yr hyn mae'r swyddogion awdurdodedig [a/neu'r] rhai sy'n mynd gyda nhw yn ei wybod neu wedi cael gwybod" am y person y credir ei fod mewn perygl.</p> <p>Pwy arall all fynd gyda swyddog awdurdodedig?</p> <p>Yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr achos, efallai y bydd pobl benodol eraill yn gallu mynd i'r adeilad, gyda'r swyddog awdurdodedig (a swyddog yr heddlu os ydyn nhw hefyd yn mynd).</p> <p>Gallai'r rhain gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> · gweithiwr cymdeithasol; · gweithiwr gofal cartref; · Meddyg Teulu neu weithiwr proffesiynol arall y GIG; · eiriolwr; · aelod o'r teulu neu ffrind; · asesydd budd gorau (mae hyn yn ymwneud ag asesiadau am allu meddyliol unigolyn); neu 	<ul style="list-style-type: none"> · "gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983". <p>Yn ôl y Ddeddf, diben y Gorchymyn yw:</p> <p>(a) galluogi'r swyddog awdurdodedig ac unrhyw berson arall sydd gyda'r swyddog i gael sgwrs breifat gyda'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg,</p> <p>(b) galluogi'r swyddog awdurdodedig i ganfod a yw'r person hwnnw'n gwneud penderfyniadau o'i wirfodd, ac</p> <p>(c) galluogi'r swyddog awdurdodedig i asesu'n iawn a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad fel sy'n ofynnol gan adran 126(2) ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.</p> <p>Dim ond pan fydd pob dull arall wedi methu neu'n debygol iawn o fethu y bydd ceisiadau am y Gorchymyn yn cael eu gwneud. Nid oes rhaid i 'swyddog awdurdodedig' profi'r angen am y Gorchymyn y tu hwnt i bob amheuaeth resymol. Efallai bod angen y Gorchymyn oherwydd nad oes digon o wybodaeth am yr oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl.</p>
--	---	--

YN LLYS YNADON xxxxxx

RHIF ACHOS:

MEWN CAIS AR GYFER GORCHYMYN AMDDIFFYN
A CHYNORTHWYO OEDOLYN

RHWNG:

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL *****

CEISYDD

-A

Jane Doe

ATEBYDD

DATGANIAD TYSTIOLAETH xxxx

Rwy'n swyddog awdurdodedig at ddibenion gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn (GACHO) ac rwy'n cael fy nghyflogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol xxxx

1. Rwy'n gwneud y datganiad yma fel Swyddog Awdurdodedig ac i gefnogi cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn (GACHO) yn unol ag **a.127 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Cyfeiriaf at **a.127 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** fel arddangosyn AT1. Pwrpas y Gorchymyn hwn yw galluogi Swyddog Awdurdodedig (a phobl broffesiynol eraill) i siarad yn breifat ag oedolyn yr amheuir eu bod mewn perygl o gamdriniaeth neu o gael eu hesgeuluso i weld a yw'r oedolyn yn gallu gwneud penderfyniadau o'i gwirfodd, asesu a yw'r person yn oedolyn mewn perygl a phenderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau. Wrth ystyried a yw'r Cais yn briodol,

rydw i wedi dilyn **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 4, Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.**

2. Rwy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol ers Mai 2018. Ymgymerais â hyfforddiant i fod yn Swyddog Awdurdodedig ar gyfer Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ar 16^{eg} Hydref 2016 yn unol â **Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015, 2015 Rhif. 1465 (W.159)**. Ers hynny, rwyf wedi cael fy awdurdodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol i ymgymryd â rôl Swyddog Awdurdodedig ar gyfer Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Cyfeiriat at fy awdurdodiad fel AT2. Rwy'n deall bod rhaid i mi berfformio'r swyddogaethau yma yn annibynnol o reolaeth dydd i ddydd yr achos yma
3. Testun y GACHO yw Jane Doe sy'n byw yn 1 street. Mae'r cyfeiriad yma yn ardal a Bwrdeistref Cyngor Bwrdeistref Sirol. Dyddiad ei geni yw

Cefndir

4. Mae gan yr Atebydd ddiagnosis o ddiabetes, poen yn ei chefn a'i choesau, pryder ac iselder ac mae hi wedi cael ei disgrifio fel un sydd ag anhawster dysgu. Symudodd o i yn 2000 ac roedd hi'n cael cefnogaeth ar lefel isel gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Symudodd i Stryd i fyw gyda'i phartner AA yn 2004. O fewn ychydig o wythnosau mynegwyd pryderon am ei ymddygiad o reoli a chafodd atgyfeiriad amddiffyn oedolyn ei wneud gan y gweithiwr cymdeithasol. Mae cyfanswm o chwe atgyfeiriad amddiffyn oedolyn wedi eu gwneud ers i'w perthynas ddechrau. Ar bob achlysur, mae pobl broffesiynol wedi cael cyfle i siarad gyda'r Atebydd ar ei phen ei hun ac mae hi wedi cael ei hystyried yn rhywun sydd â'r galluedd meddyliol i fod mewn perthynas cydsyniol. Dyw'r Atebydd ddim wedi cael unrhyw gymorth parhaus oddi wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol ers i'w pherthynas gyda AA ddechrau, er ei bod hi wedi cael un cyfnod o gymorth tymor byr yn y gorffennol i gefnogi ei mynediad at y gymuned, ymyrraeth y bu iddi roi diwedd arno.
5. Ym Mehefin 2017, mynegodd Meddyg Teulu bryderon eto am reolaeth AA o ofal meddygol yr Atebydd a chyfeiriwyd yr achos at swyddogion diogelu, gyda BB yn Gydlynnydd Arweiniol. Ymgwymerwyd ag ymweliad lles gan ddau weithiwr cymdeithasol ar 19^{eg} Gorffennaf 2017. Roedd AA yn elyniaethus iawn ac yn

haerllug am weithwyr cymdeithasol. Gwaeddodd i fyny'r grisiau ati i ddweud bod dau weithiwr cymdeithasol i lawr y grisiau a holodd a oedd hi am eu gweld nhw, ac atebodd hi 'na'. Roedd y pâr yn y broses o newid meddygfa ar y pryd, ac roedd pobl broffesiynol eraill yn ymweld (Therapydd Galwedigaethol o'r Gymdeithas Tai a Ffisiotherapyddion), canlyniad yr ymweliadau yma oedd y dylai cawod mynediad gwastad gael ei gosod yn y cartref. Does gan gawod mynediad gwastad ddim grisiau nac ymyl, a gan fod symudedd yr Atebydd yn dirywio, ystyried eu bod yn gymwys ar gyfer hyn. Penderfynwyd ymgysylltu â'r Atebydd unwaith i hyn gael ei gwblhau.

6. Unwaith i'r gawod mynediad gwastad gael ei gosod, ymwelodd CC, Therapydd Galwedigaethol (ThG) o'r Gymdeithas Tai, â'r Atebydd ar 18^{fed} Hydref 2017 i weld sut roedd hi'n ymdopi a hi. Dywedodd nad oedd hi wedi ei defnyddio oherwydd ei bod hi'n nerfus a chytunodd i atgyfeiriad ar gyfer cymorth ail-alluogi i'w helpu i fagu hyder a sgiliau i allu ymolchi ei hun yn annibynnol yn y gawod. Yn ystod yr ymweliad yma, soniodd y ThG am y Gwasanaethau Cymdeithasol, a chynhyrfodd AA yn fawr, a gwnaeth sylwadau sarhaus am weithwyr cymdeithasol, er enghraifft, 'yr unig weithiwr cymdeithasol gwerth chweil yw un marw'. Dywedodd na fyddai'n gadael Gweithiwr Cymdeithasol i mewn i'r tŷ.
7. Ar 6^{ed} Tachwedd 2017, aeth dau aelod o'r Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC) at y cartref i gynnig cymorth ail-alluogi i'r Atebydd, un dyn, un fenyw. Dywedwyd fod AA yn swta iawn ac ni fyddai'n eu gadael nhw i groesi'r rhiniog nag i siarad â hi, dechreuodd siarad yn negyddol iawn am y Gymdeithas Tai. Ffoniodd y ddesg ar ddyletswydd wedyn i gwyno am '2 ddyn' yn dod i'r tŷ ac y byddain' trefnu ffisiotherapi i'r Atebydd trwy'r Meddyg Teulu.
8. Ceisiodd CC, y ThG, gysylltu â'r Atebydd i drafod y sefyllfa. Oherwydd nad oedd neb yn ateb y ffôn, danfonodd llythyr at y pâr yn gofyn iddyn nhw gysylltu â hi. Ar 9^{fed} Tachwedd 2017, ffoniodd AA yn ddig iawn ac yn grac, a dywedodd nad oedd eisiau i'r ThG ymwneud rhagor gan ei bod yn ymyrryd a'u bod 'nhw' am gael eu gadael yn llonydd. Gwrthododd drosglwyddo'r ffôn i'r Atebydd er gwaethaf nifer o geisiadau gan y ThG.
9. Ar 1^{af} Rhagfyr 2017, danfonwyd llythyr oddi wrth y TAC at yr Atebydd yn cynnig cymorth ail-alluogi ac yn gofyn iddi ffonio i drefnu ymweliad. Ni chafwyd unrhyw gysylltiad, felly ar 9^{fed} Ionawr 2018, gofynnwyd i TAC gysylltu ymhellach gan BB,

Ymarferydd Arweiniol, oherwydd doedd yr Atebydd ei hun ddim wedi gwrthod y gefnogaeth ond roedd ei chymar, AA, wedi gwrthod iddyn nhw siarad â hi.

- 10.** Ar 7^{fed} Chwefror 2018, aeth dau ThG o'r TAC i'r cartref heb rybudd. Tra'r oedden nhw ar y rhiniog yn esbonio'r rheswm am yr ymweliad, dechreuodd AA siarad yn uchel uwchben eu sgwrs a dywedodd wrthyn nhw nad oedd e ddim am eu gweld nhw oherwydd eu bod wedi 'cymryd yn rhy hir'. Gofynnnon nhw i gael siarad â'r Atebydd ond gwrthododd AA a dywedodd yn uchel y byddai hi'n dweud yr un peth ag e. Parhaodd i siarad drostyn nhw mewn llais uchel a dywedodd y byddai'n gwneud cwyn i'w 'bos mawr' a chaeodd y drws yn glep.
- 11.** Oherwydd y pryderon am les yr Atebydd, trefnwyd cyfarfod strategaeth gan BB a'i gynnal ar 28^{ain} Chwefror 2018 o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru gydag amrywiaeth o bobl broffesiynol i drafod y pryderon cynyddol bod AA i weld yn cymryd mwy a mwy o reolaeth ynglŷn â phwy mae'r Atebydd yn cysylltu â nhw, ac nad yw person proffesiynol wedi siarad â hi ers ymweliad y ThG yn Hydref 2017. Yn bresennol yn y cyfarfod yma roedd Y pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod oedd gofyn i'r Meddyg Teulu gysylltu â'r Atebydd i drefnu adolygiad meddygol, a phe bai'r ffordd yma'n methu, yna dylid cael ymweliad lles gan weithwyr cymdeithasol ond gyda chefnogaeth yr heddlu. Cyfeiriaf at Gofnodion y Cyfarfod Strategaeth fel AT3.
- 12.** O ganlyniad i'r cyfarfod, gwahoddodd y Meddyg Teulu'r Atebydd i'r feddygfa ar gyfer adolygiad meddyginiaeth. Serch hynny, ffoniodd AA i ddweud nad oedd hi'n gallu mynd i'r feddygfa. Danfonodd y MT lythyr wedyn yn dweud y byddai'r tîm nyrsio ardal yn ymweld â'r cartref ar 7^{fed} Mawrth 2018, ac y byddai'r MT yn ymweld â'r cartref wedyn ar 8^{fed} Mawrth 2018. Doedd dim ateb wrth y drws ar gyfer y naill ymweliad na'r llall.
- 13.** Ar 9^{fed} Mawrth 2018, trefnwyd ymweliad lles brys gyda dau weithiwr cymdeithasol (DD a EE), a chefnogaeth gan yr heddlu. Roedd AA yn elyniaethus iawn ac wedi ei gynhyrfu, a dywedodd nad oedd yr Atebydd 'o dan y patio eto', a bygythiodd ladd gweithwyr cymdeithasol. Dywedodd bod gweithwyr cymdeithasol wedi difetha bywydau ei deulu ac mai'r gweithwyr cymdeithasol gorau yw gweithwyr cymdeithasol marw ac y bydd yn lladd un rhyw ddiwrnod. Mae datganiad wedi ei roi gan EE sy'n rhoi mwy o wybodaeth am yr ymweliad. Ar ôl gwrthod mynediad i'r tŷ i weithwyr cymdeithasol, gadwodd y swyddog o'r

heddlu i ddod i'r tŷ, caeodd y drws a siaradodd â hi am amser byr ond cynhyrfodd yn fwy. Daeth allan eto i ble roedd y gweithwyr cymdeithasol y tu allan i'r drws, ac, yn fygythiol, gwaeddodd a rhegodd arnynt i adael ei eiddo. Tra bod AA y tu allan yn symud y gweithwyr cymdeithasol o'r eiddo, aeth y swyddog o'r heddlu lan y grisiau a gwelodd yr Atebydd. Cafodd y swyddog gyfle dim ond i ofyn iddi sut roedd hi a dywedodd nad oedd ei hiechyd yn dda. Doedd dim cyfle am unrhyw beth pellach oherwydd ar yr adeg yma, daeth AA i fyny'r grisiau gan weiddi ar y swyddog o'r heddlu i adael hefyd, mae'n disgrifio sut y bu iddo ei hel hi i lawr y grisiau ac allan o'r cartref gan weiddi yn ei chlust 'allan, allan'.

14. Yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw, aeth gweithiwr cymorth o'r Tîm Nyrsio Ardal i gymryd gwaed o'r Atebydd. Roedd AA yn elyniaethus iawn ynglŷn â'r Feddygfa a gweithwyr cymdeithasol ar riniog y drws, ond llwyddodd y gweithiwr cymorth i fynd i mewn trwy ddweud wrtho nad oedd hi'n gysylltiedig â nhw. Llwyddodd i gael caniatâd a chymryd gwaed gan yr Atebydd ond ni chafodd unrhyw sgwrs â hi oherwydd Iddi ddweud bod AA yn gwneud iddi deimlo'n anghyfforddus iawn. Dywedodd y Gweithiwr Cymdeithasol bod yr Atebydd mewn cyflwr anniben ac roedd y llawr i fyny'r grisiau wedi ei esgeuluso ac roedd arogl cryf yno.
15. Aeth AA i'r feddygfa yn nes ymlaen yr un diwrnod i gasglu presgripsiwn yr Atebydd a honnodd nad oedd wedi derbyn y llythyr yn dweud am ymweliad y MT 'mewn pryd' oherwydd yr amharu gan yr eira er bod yr heolydd yn glir erbyn 5^{ed} Mawrth
16. Ar 14^{eg} Mawrth 2018 cafwyd cyfarfod strategaeth pellach gyda phobl broffesiynol perthnasol. Yn bresennol roedd Cytunwyd, er bod y risg i'r Atebydd yn anhysbys ar hyn o bryd, roedd hyn oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gallu siarad â hi. Roedd ymddygiad AA gyda'r holl bobl broffesiynol yn peri pryder difrifol ynglŷn â lles yr Atebydd. Canlyniad y cyfarfod hwnnw oedd nifer o ymgeision i ymweld gan nifer o bobl broffesiynol wahanol, ond doedd neb wedi gallu siarad yn breifat gyda'r Atebydd, a'r unig gam oedd ar ôl i bobl broffesiynol nawr oedd gwneud cais i Lys yr Ynadon am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Cyfeiriaf at Gofnodion y cyfarfod strategaeth fel AT4 am fanylion y crynodeb yma.

17. Ar ôl y cyfarfod hwnnw, parhaodd y MT i gysylltu i ymweld â'r cartref. Danfonwyd llythyr pellach at yr Atebydd i ddweud wrthi am ymweliad â'r cartref a drefnwyd ar gyfer dydd Iau 22^{ain} Mawrth. Ffoniodd AA y feddygfa a gwrthododd i'r MT a nodwyd i ddod i'r tŷ ond dywedodd y bydd y byddai'n caniatáu i MT arall i ymweld. Felly, ymwelodd MT arall ar 22^{ain} Mawrth a chafodd fynd i mewn. Mae e wedi dweud iddo weld yr Atebydd a llwyddodd i drafod ei hiechyd gyda hi. Roedd AA yn bresennol trwy gydol yr ymgynghoriad. Ei farn (y pwysleisiodd ei fod yn un goddrychol) oedd bod y cartref yn daclus, ond fod yr Atebydd ei hun i weld braidd yn anniben.
18. Fel y Swyddog Awdurdodedig ar gyfer Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, mae pob ymgais i siarad â'r Atebydd yn breifat wedi ei wneud a dydyn nhw ddim wedi bod yn llwyddiannus oherwydd ymddygiad gorfodol a rheolaethol AA. Rwy'n credu bod y seiliau yn **adran 127(4) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheolau Llys Ynadon (Gorchmynion Diogelu a Chynorthwyo Oedolion) 2017 (cyfeiriau at y rheolau yma fel AT5)** wedi eu bodloni. Er mwyn esbonio pam fod angen y Gorchmyn, rwyf wedi gosod y rhesymau gerbron yn unol ag a.127(4).

a.127(4) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

19. A.127(4)(a) - mae gan y Swyddog Awdurdodedig sail resymol dros amau bod y person yn oedolyn sy'n wynebu risg

Rwy'n credu, o ystyried y wybodaeth uchod, bod yna achos rhesymol i amau bod Jane Doe yn oedolyn mewn perygl. Mae ei phartner wedi gwrthod i bobl broffesiynol fynd ati, er gwaethaf ei chais ei hun am gymorth i helpu gyda defnyddio'r gawod mynediad gwastad. Dywedodd wrth yr heddlu ei bod hi'n teimlo bod ei hiechyd yn wael, eto doedd ei phartner ddim wedi ei chefnogi hi gyda naill ai ymweliad â'r feddygfa neu ymweliad â'r cartref gan y MT, er bod y MT wedi gallu mynd yno'n fwy diweddar. Cafodd ei disgrifio gan y gweithiwr cymorth o'r tîm Nyrsio Ardal fel rhywun mewn cyflwr anniben, gyda'r llofft wedi ei hesgeuluso ac yn ddrewllyd. Hefyd, mae ymddygiad AA tuag at bob person proffesiynol wedi peri pryderon ynglŷn â'i ymddygiad tanllyd a'r cyflymder y bydd yn cynhyrfu pan nad yw pethau yn mynd y ffordd y mae'n dymuno. Er nad oes hanes hysbys o drais domestig, mae yna lefel amlwg o reolaeth. Er bod

cryn dipyn yn anhysbys ynglŷn â sut y mae'n rheoli; mae hi'n cael ei hynysu ar hyn o bryd o ffynonellau posibl o gefnogaeth.

20. S.127(4)(b) - mae'n angenrheidiol i'r Swyddog Awdurdodedig gael gweld y person er mwyn asesu'n iawn a yw'r person hwnnw'n oedolyn sy'n wynebu risg a gwneud penderfyniad fel sy'n ofynnol gan adran 126(2) ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd

Heb allu siarad â'r Atebydd, ni fyddaf yn gallu asesu a yw hi'n oedolyn sy'n wynebu risg, na phenderfynu pa gamau, os camau o gwbl, dylid eu cymryd. Does dim un person proffesiynol arall wedi gallu siarad â'r Atebydd yn breifat ers Hydref 2017 er mwyn casglu ei barn a gweld a yw hi'n cytuno â'r penderfyniadau sydd wedi eu gwneud gan AA dros y misoedd diwethaf i atal pobl broffesiynol sy'n fodlon ei chefnogi i gyrraedd y canlyniadau y mae hi wedi eu nodi. Mae hi wedi dweud ei bod hi eisiau cefnogaeth i allu defnyddio'r gawod yn hyderus ac mae hi wedi nodi hefyd bod ei hiechyd yn wael.

21. A.127(4)(c) - mae gwneud gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r dibenion a nodir yn isadran (2)

Ar yr adeg yma, mae'n hanfodol cael mynediad at yr Atebydd er mwyn cael siarad â hi'n breifat (a.127(2)(a)); i weld a yw hi'n gallu gwneud penderfyniadau o'i gwirfodd (a.127(2)(b)); ac asesu a yw hi'n oedolyn sy'n wynebu risg, a phenderfynu o hynny pa gamau y dylid eu cymryd (a.127(2)(c)) .

22. A.127(4)(d) - ni fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn peri i'r oedolyn fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Nid wyf yn credu y bydd y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn arwain at fod yr Atebydd yn mynd i fwy o berygl o gamdriniaeth a chael eu hesgeuluso. Ar hyn o bryd mae cryn dipyn nad yw'n hysbys am y sefyllfa ond os caiff yr Atebydd y cyfle i siarad yn breifat am ei sefyllfa, yna ni ddylai fod yna fwy o berygl iddi. Y prif risg ar hyn o bryd yw gwneud dim, gan ein bod ni'n ymwybodol bod ei hiechyd yn dirywio, ac mae mynediad at driniaeth feddygol yn cael ei wrthod iddi.

23. Er fy mod yn deall y dylai'r Atebydd a AA gael rhybydd, rwy'n credu y gallai wneud yr Atebydd yn agored i niwed posibl, gallai roi cyfle pellach i AA amharu ar ymgais i gael gweld Jane Doe yn gorfforol ac yn emosiynol fel ei gilydd; er enghraifft gallai hi gael ei rhoi o dan bwysau gan AA i ddweud dim wrth bobl broffesiynol, neu i ddweud fod pob dim yn iawn. Hefyd, bydd rhoi rhybudd yn oedi'r broses o gysylltu. Felly rwy'n gofyn nad oes rhybudd o'r gorchymyn yn cael ei roi. Trafodwyd hyn yn y cyfarfod strategaeth ar 14eg Mawrth 2018, fel dangosir yn y Cofnodion yn AT4.
24. Rydw i'n gofyn hefyd am i amod gael ei hychwanegu i'r Gorchymyn i ddweud pwy all ddod gyda mi. Dylai hyn gynnwys y Gweithiwr Cymdeithasol yn yr achos, er mwyn cwblhau'r asesiad o anghenion gofal a chefnogaeth, er mwyn penderfynu a ddylid gweithredu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a gweld a yw JD yn oedolyn sy'n wynebu risg yn ôl diffiniad y DdGCLI. Meddyg Teulu, o ystyried bod yma bryderon iechyd posibl wrth law, a dau/dwy swyddog heddlu gan fod achos rhesymol i gredu y bydd AA yn ceisio atal mewn ffordd gorfforol mynediad i'r cartref/JD.
25. Rydw i wedi pwysu a mesur peryglon a phwysigrwydd gwneud cais am, neu beidio â gwneud cais am GACHO. Cydnabyddir mai'r arfer da, yn unol â **pharagraff 2.9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 4, Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion** yw llunio mantolen i asesu'r peryglon a'r goblygiadau fel sydd isod. I wneud pethau'n rhwydd, JD yw'r Atebydd ac AA yw ei phartner.

Gwneud cais am GACHO	Peidio â gwneud cais am GACHO
<p><u>Risgiau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Ynysu AA ymhellach • JD yn dioddef trawma oherwydd dulliau gorfodol 	<p><u>Risgiau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod JD yn parhau i 'wynebu risg' camdriniaeth neu esgeulustra • Bod ei hiechyd corfforol yn parhau i ddirywio • Ei bod yn parhau i fod heb gyfleoedd cymdeithasol • Ei bod hi'n parhau mewn 'cyflwr anniben' heb allu defnyddio ei chawod ei hun • Bod AA yn parhau i siarad ar ei rhan

	<ul style="list-style-type: none"> • Bod JD yn teimlo 'wedi ei siomi' gan bobl broffesiynol, gan fod dim yn cael ei wneud i siarad â hi
<p><u>Manteision</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • bod llais JD yn cael ei glywed • bod pobl broffesiynol yn deall pa ganlyniadau y mae hi eisiau eu gweld • ei bod hi'n cael y cyfle i gael ei hiechyd wedi ei asesu • ei bod hi'n cael y cyfle i wneud penderfyniadau'n annibynnol am ei dyfodol 	<p><u>Manteision</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni fydd AA yn cynhyrfu gyda phobl broffesiynol

Casgliad

26. Rwy'n fodlon bod y fantolen uchod yn dangos yn eglur y peryglon o naill ai gwneud cais neu beidio â gwneud cais am y GACHO, Y Cais yma yw'r gobraith olaf ac mae ymdrechion eraill i gysylltu wedi golygu nad yw Gweithwyr Cymdeithasol a phobl broffesiynol eraill wedi gallu gwirio lles yr Atebydd.
27. Byddai'r cais yma'n caniatáu i'r bobl broffesiynol ganlynol ddod gyda mi;
- Gweithiwr Cymdeithasol; at ddiben asesu a yw JD yn oedolyn sy'n wynebu perygl yn ôl diffiniad y DdGCLI.
 - MT at ddibenion asesu anghenion iechyd agos JD
 - 2 Swyddog o'r Heddlu at ddibenion cefnogi mynediad diogel pobl broffesiynol i'r cartref a symud AA o'r cartref
28. Mae'r cais hwn yn gofyn am fynediad at y cartref/JD ar **/**/** ac am y cyfle am ymweliad pellach ar **/**/** os bydd angen creu perthynas, asesiad a mewnbwn er mwyn cwblhau'r ymholiadau yma.

Rwy'n credu bod cynnwys y datganiad hwn yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Llofnodwyd

